

1.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar chwarae at ddysgu, ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion a lleoliadau (*Llywodraeth Cymru*, 2023). Cytuna Wainwright (2020) bod Cymru yn mabwysiadu'r dull dysgu effeithiol hyn, gan nodi'r manteision fel cynnydd o hunan ymwybyddiaeth, dysgu rheolau cymdeithasol, cymhelliad ac ymgysylltiad â dysgu. At hyn, yn yr Iseldiroedd, maent yn mabwysiadu cwricwlwm seiliedig ar chwarae, sy'n annog plant i ddefnyddio'i menter, a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu ystyrlon, i gyfrannu at ddatblygiad plant (Pombert, van der Meer-Wijnands a De Waard, 2022).

Mae chwarae yn hawl sylfaenol i bob plentyn, a datganwyd mewn erthygl 31 yn y Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (*Llywodraeth Cymru*, 2022). At hyn, mae dysgu seiliedig ar chwarae yn cefnogi datblygiad cyfannol ar draws y cwricwlwm, ac mae angen addysgeg sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr i sicrhau dilyniant dysgu a datblygiad i'r plentyn (*Llywodraeth Cymru*, 2023a).

Fodd bynnag, darganfod Taylor, Rhys a Waldron (2016) bod heriau a gall godi wrth weithredu'r cwricwlwm seiliedig a chwarae, gan fod athrawon cymwysedig yn treulio'r rhan fwyaf o amser yn addysgu'n uniongyrchol, ac mae'r ymarferwyr cymorth yn cymryd mwy o ran mewn darpariaeth wedi'i chyfoethogi. Creda Taylor, Rhys a Waldron bod hyn yw'r rheswm i'r diffyg darpariaeth diffyg dysgu drwy brofiad mewn dosbarthiadau. Mae'r farn hyn yn cydsynio gyda'r argymhellion o'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, gan nodi bod angen i blant gael mynediad i gyfleoedd difyr sy'n cefnogi chwilfrydedd a brwdfrydedd plant, trwy gyfuniad o ddulliau dysgu ac addysgu (Donaldson, 2015, t.110).

Yn ychwanegol, sylwyd yn yr adroddiad Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen (*Llywodraeth Cymru*, 2015, t.82) bod ymarferwyr ychwanegol yn mabwysiadu'r addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn fwy aml nag athrawon, ac yn treulio fwy o amser yn cefnogi darpariaeth well a parhaus nag athrawon, pwy oedd yn gwario 92% o'u hamser yn cefnogi gweithgareddau ffocws.

Yn gyfatebol, dywed van Oers (2015) bod her arall i'r gweithrediad o gwricwlwm seiliedig ar chwarae, sef yr aberth o bedagogaid athrawon, rôl yr athrawon yn y creadigedd o gyfleoedd dysgu ystyrlon, ar ryddid o'r ymagwedd seiliedig ar chwarae.

Cytuna Barblett, Knaus a Barrett-Pugh (2016) ac UNICEF (2018) gyda'r farn hyn, gan nodi bod camddealltwriaeth o'r pwrpas o chwarae, diffyg cefnogaeth gan system cymorth ysgol, a diffyg addysgeg chwarae a rennir rhwng rhandaliad ac addysgwyr.

Hefyd, amlygir y mater hwn yn yr adroddiad Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen (*Llywodraeth Cymru*, 2015, t.15), gan argymhell mewn argymhelliad 6 bod angen hyfforddi ymarferwyr er mwyn gwella dealltwriaeth o'r dulliau ar ymagweddau sy'n cael eu pwysleisio trwy'r ddeuddeg elfen addysgeg hanfodol y Cyfnod Sylfaen, ac yn ychwanegol, mewn argymhelliad 8, y pwyslais o'r ymagwedd bedagogaid i gael eu cynnwys mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a chysiau proffesiynol arall (*Llywodraeth Cymru*, 2015, t.16).

Mae'r argymhelliad hyn hefyd yn cael eu pwysleisio yn yr Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (*Llywodraeth Cymru*, 2014, t.5,6,16), gan nodi er bod un rhan o bump ysgolion yng Nghymru yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn, maent yn awgrymu bod angen i ymarferwyr cymryd rhan mewn hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar sut mae plant yn dysgu a datblygu, oherwydd diffyg dealltwriaeth o ymarferwyr ar addysgeg chwarae ar ddysgu gweithredol, trwy brofiad. Yn yr un ddogfen, adroddodd yr archwiliad stoc trwy ymweld ag ysgolion a gosodiadau nas cynhelir, adroddwyd eu bod yn rhagorol gan Estyn, bod gan ymarferwyr addysgeg a rhennir gyda'i chydweithwyr, ac fel canlyniad o hyn, roedd gwelliannau wedi'u cyhoeddi mewn ardaloedd o lythrennedd, lles a rhifedd yn y plant o feithrin i flwyddyn dau (*Llywodraeth Cymru*, 2014, t.21).

Mae'r data hyn yn cyd-daro â barn Piaget am rôl yr oedolyn yn ystod dysgu'r plentyn. Ystyriai Piaget (1969, dyfynnwyd yn Hoy, 2016, t.88-89) bod angen i ymarferwyr deall sut mae'r plant yn dysgu, er mwyn gydlyn addysgeg dysgu gyda'r wybodaeth gyfredol y plant. Cytuna Montessori, Rousseau a Froebel (dyfynnwyd yn Isaacs, 2018, t.66-68) gyda'r farn Piaget, gan awgrymu bod rôl yr oedolyn yn gynnwys ystyried y plentyn fel arweinydd eu dysgu, dealltwriaeth o'r plentyn a'i dull o ddysgu, a chreu amgylchedd sy'n cael eu harwain gan y plant gyda synnwyr o ryddid. Mae'r gred hon yn cysylltu gyda'r adolygiad y Cwricwlwm i Gymru gan Donaldson (2015, t.10). Noda yn y ddogfen hon, bod angen i'r cwricwlwm cael ei ddylunio sy'n seiliedig ar ddiddordebau'r plant er mwyn eu galluogi i gyflawni.

Serch hynny, dyweda Kinkead-Clark (2019) er bod manteision o'r addysgeg dysgu seiliedig ar chwarae yn gryf ac yn gynnwys buddion o sgiliau gwybyddol, corfforol, emosiynol a gymdeithasol, mae rhwystrau i ystyried wrth fabwysiadu'r dull yma, yn enwedig goruchafiaeth oedolion yn ystod chwarae plant. Cytuna Howard a McInnes (2013) gyda'r

safbwynt Kinkead-Clark (2019) gan fynegi bod angen i ymarferwyr parhau a'u datblygiad proffesiynol gan fynegi hyfforddiant sy'n ffoci ar bwysigrwydd chwarae fel agwedd dysgu a'r broses o chwarae i'r plentyn.

Yn debyg, mae'r pedagogaid hon yn cael ei hadnabod yn y cwricwlwm Seland Newydd Te Whāriki (2017, t.17-20). Trwy'r cwricwlwm hon, maent yn darparu profiadau chwarae cyfoethog, ac yn mabwysiadu pedagogaid sy'n annog y plant i ddatblygu dealltwriaeth mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt, a gwneud penderfyniadau ar faterion fy'n ymwneud â nhw.

Serch hynny, dyweda Kinkead-Clark (2019) er bod manteision o'r addysgeg dysgu seiliedig ar chwarae yn gryf ac yn gynnwys buddion o sgiliau gwybyddol, corfforol, emosiynol a gymdeithasol, mae rhwystrau i ystyried wrth fabwysiadu'r dull yma, yn enwedig goruchafiaeth oedolion yn ystod chwarae plant. Cytuna Howard a McInnes (2013) gyda'r safbwynt Kinkead-Clark (2019) gan fynegi bod angen i ymarferwyr parhau a'u datblygiad proffesiynol gan fyned hyfforddiant sy'n ffoci ar bwysigrwydd chwarae fel agwedd dysgu a'r broses o chwarae i'r plentyn. I nodi y gall hyn fod yn rhwystr, datgan yn yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (2022, t.12), bod angen i arweinwyr proffesiynol ymgymryd mewn hyfforddiant sy'n ffoci ar arfer pedagogaid cyfredol, ac yn pwysleisio'r pwysigrwydd o hwn, oherwydd yr heriau o reidrwydd cenedlaethol newidiol cyfnodol.

Cytuna Nolan a Guo (2022) gyda'r heriau hyn, gan fynegi bod ymarferwyr gallu bod yn anghyfforddus gyda newid eu harfer pedagogaid, oherwydd profiadau byw proffesiynol, eu gwybodaeth flaenorol a diffyg adlewyrchiad o ymarfer personol. At hyn, awgryma Gutierrez a Kim (2017) bod ymarferwyr proffesiynol ag amheuan dros gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol oherwydd diffyg amser, ei weld fel blaenoriaeth isel a diffyg cymhellant. Mae'r her hyn hefyd yn cael ei nodi yn y ddogfen Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015, t.36-37), gan adrodd er bod 97% o brif athrawon yn meddwl bod eu hymarferwyr yn croesawi'r cyflwyniad o'r Cyfnod Sylfaen, roedd llai o frwydrydedd am y newidiadau gan athrawon y cyfnod allweddol 2, oherwydd blaenoriaethau addysgol, adnoddau a dealltwriaeth bedagogaid.

Cytuna McGuinness *et al.* (2014) gyda'r datganiad hwn, gan awgrymu bod athrawon o'r cyfnod allweddol 2 wedi teimlo anawsterau i'r newidiadau'r cwricwlwm, oherwydd roedd yn teimlo'n sefydlog yn eu hymarfer.

Fodd bynnag, mae'r *Llywodraeth Cymru* (2020) yn cynghori ymarferwyr proffesiynol i fyfyrio ar ymarfer personol ac ar y cyd, yn erbyn safonau arfer effeithiol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae hon yn cael ei cefnogwyd gan y Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arwain a chynorthwyo gwaith addysgu: adroddiad terfynol (*Llywodraeth Cymru*, 2023b). Noda yn y ddogfen hon, bod tystiolaeth yn dangos bod cynnydd o ymarferwyr wedi cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol, yn enwedig yn y maes o addysgeg. Fel canlyniad, adrodda cynnydd mewn cydweithied gwell rhwng arweinwyr ac ymarferwyr, gan gynnwys trafod addysgeg, datblygiad proffesiynol a nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r Cyngor y Gweithlu Addysg (dim dyddiad) yn sail i'r arweiniad hon, gan ddarparu offeryn ar-lein hyblyg sy'n caniatáu ymarferwyr i fyfyrio a rhannu unrhyw hyfforddiant, gyda'r nod o wella arfer a datblygiad proffesiynol, gyda ffocws ar raglenni dysgu rhanbarthol a proffesiynol, ac yn unol â'r canllawiau ymarfer proffesiynol y *Llywodraeth Cymru* (2020) (CGA EWC, 2023).

Hefyd, i sicrhau gweithrediad effeithiol y cwricwlwm, mae gan y *Llywodraeth Cymru* (2021) genhadaeth genedlaethol i ddatblygu ymagweddau at ddatblygiad proffesiynol, nodi anghenion dysgu proffesiynol a gwneud dysgu proffesiynol yn flaenoriaeth i bob ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant i godi safonau ar gyfer bob dysgwyr.

Mae'r symudiad hyn wedi codi o'r adroddiad 2022 PISA (*Llywodraeth Cymru*, 2023c), lle cofnodwyd canlyniadau siomedig wedi annog angen am ddysgid o ansawdd uchel i gefnogi dysgu proffesiynol a gwella ysgolion fel blaenoriaeth.

Cefnoga'r Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (*Llywodraeth Cymru*, 2014, t.6) gyda'r datblygiad hyn, wrth nodi yn yr argymhellion, bod cynllun deng mlynedd i gefnogi ac arolygi'r gweithrediad o'r addysgeg dysgu seiliedig ar chwarae'r Cyfnod Sylfaen, safonau a dealltwriaeth o sut mae plant yn dysgu. I ategu'r argymhellant hyn ymhellach, noda yn y ddogfen Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen (*Llywodraeth Cymru*, 2015, t.38) bod mwy na 60% o brif athrawon wedi adroddi fod rhwystr weithrediad y Cyfnod Sylfaen oedd seilwaith ysgolion presennol a diffyg cyllid. Yn debyg, adroddodd *The New Times* (2017) bod niferoedd o athrawon dim yn ddigon mentrus i fabwysiadu'r dulliau'r cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm seiliedig ar chwarae a'i fanteision yn cael ei mabwysiadu yn datblygu'n fyd-eang (Braund a Timmons, 2021). Mae ysgolion yn Affrica wedi dechrau gweithredu'r dull yma o ddysgu, i gyflwyno a mireini ddysgu, ac mae athrawon dan hyfforddiant Noraidd yn dod i Uganda i ddysgu sut i fabwysiadu'r dull hwn o ddysgu (Salmon, 2019).

Yn y Deyrnas Unedig, mae'r polisiau addysgol wedi symud i ddulliau addysgu, dysgu sy'n briodol o ran datblygiad ac ymagwedd seiliedig ar chwarae. Fodd bynnag, wrth i'r symudiad hwn digwydd, amlygodd yr angen cefnogaeth a datblygiad helaeth proffesiynol, yn enwedig wrth ffoci ar sgiliau rhifedd a llythrennedd wrth fabwysiadu'r dull dysgu hwn (McGuinness *et al.*, 2014), sy'n cyd-daro â'r canlyniadau'r rhagamcan y Llywodraeth Cymru o ran y Cyfnod Sylfaen.

2.

Yn ôl Senedd Cymru (2019), mae'n bwysig gweld bob plentyn mewn ffordd gyfannol, a gwerthfawrogi'r plentyn fel unigryw, ac fel dysgwr gweithgar lle mae unrhyw anghenion posibl yn cael eu cefnogi ac eirioli. Yn debyg, noda Professional Association for Childcare and Early Years (2024) bod rhaid i ymarferwyr darparu arfer cynhwysol, gan gynnwys cydnabyddiaeth bod pob plentyn yn unigolyn, ac y bydd yn datblygu ar gyflymder unigol ei hun. At hyn, mae'r arfer hyn yn cael ei nodwyd yn y Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (*Llywodraeth Cymru*, 2022) mewn erthygl 2, lle mae'n nodi bod y Confensiwn yn gymwys i bob un, ac mewn erthygl 6, lle nodir bod bob plentyn gyda'r hawl i fyw, a dylai llywodraethau ofalu bod plant yn datblygu'n iach ac yn goroesi.

Mae'r *Llywodraeth Cymru* (2022a), yn adroddi fod pwrpas asesiadau yw sicrhau datblygiad cyfannol o'r dysgwr, ac i ddefnyddio fel sail i gefnogi a herio'r dysgwr. Mae hwn yn unedig gyda'r Curriculum and Assessment (Wales) Act (2021) o dan adran 56, lle mae'n datgan bod angen i'r darparwr addysg berthnasol asesu'r cynnydd plant, y camau nesaf yn eu dilyniant a'r addysgu a dysgu y mae angen eu cynnal i gefnogi'r dysgu i blant gwneud cynnydd. Ymhellach, cymeradwyo'r OECD (2020, t.39) y rhesymau sylfaenol o asesu trwy'r cwricwlwm, gan nodi bod angen i athrawon defnyddio'r wybodaeth i wella addysgu yn y dosbarth, ac er mwyn addysgu yn y dyfodol.

Wrth ystyried dulliau asesu ffurfiannol, gan fod plant yn datblygu ar gyflymder eu hunan, gan ddefnyddio'r dull hyn, maent yn galluogi'r athrawon i unigoli cyfarwyddiadau i bob plentyn, gan gasglu tystiolaeth am ddealltwriaeth a sgiliau'r plentyn (Institute of Education Sciences, 2020). Awgryma Aras (2023) wrth ddefnyddio'r dull hyn, maent yn cefnogi'r athrawon i ddatblygu dealltwriaeth gyfoethog am sut mae'r plant yn dysgu, meddwl a gweithredu. Fodd bynnag, eirioli eAutin, eBatruch a eButera (2015) wrth ddefnyddio'r dull asesu hyn, maent yn gallu bod yn rhwystr i blant o statws cymdeithasol is, oherwydd y cred bod y plant hyn yn amau eu gallu i lwyddo, a diffyg hunan hyder.

Serch hynny, creda wrth ddefnyddio'r dull asesu hyn, maent yn gallu sicrhau cydraddoldeb oherwydd y gweithrediad o wahaniaethu i unigolion, sy'n dibynnu ar eu hanghenion dysgu a datblygiad.

Cefnoga hyn gan y canlyniadau o'r cyfrif stoc annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (*Llywodraeth Cymru*, 2014, t.31). Noda yn y ddogfen hon mewn pwynt 6.2, bod tlodi a

statws economaidd-cymdeithasol plant ai theuluoedd yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau plant. Felly, mae'r datgan hon yn cefnogi'r damcaniaeth eAutin, eBatruch ac eButera (2015) am yr effaith o statws cymdeithasol a llwyddiant.

Ymhellach, mewn pwynt 6.3 o'r cyfrif stoc annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (*Llywodraeth Cymru*, 2014, t.31-32), ac mewn adroddiad gan Valentine *et al.* (2022), datganiad amlygodd pryder bod dim digon o ddealltwriaeth am gefndiroedd anfanteisiol a diffyg empathi o ymarferwyr, ar effaith mae hon gallu cael ar plant. I diwygio hyn, dyfeisiodd y *Llywodraeth Cymru* mewn argymhellant 12 i hyfforddi ymarferwyr ar effaith o gefndiroedd anfanteisiol i blant, ar ffyrfiau cyraeddadwy i cau'r blwch mewn cyflawniad plant.

Ym mis Medi 2014 (*Llywodraeth Cymru*, 2014a), cynigiwyd asesiad newydd ar-fynediad gan y Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynnyddoedd Cynnar (*Llywodraeth Cymru*, 2015a, t.9), fydd yn darparu asesiad trosfwaol i blant yn ystod flwyddyn derbyn i 7 mlwydd oed, or enw proffil Cyfnod Sylfaen. Mae'r dull o asesu hyn yn gynnwys asesiadau ffurfiannol ac arsylwadau, gyda chysylltiad i'r meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen i gynhyrchu canlyniadau.

Serch hynny, nodwyd yn argymhelliad 14 yn y gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen (*Llywodraeth Cymru*, 2015, t.16), bod angen eglurhad ar ddatblygiad yr asesiadau hyn, a hyfforddiant i ymarferwyr i alluogi nhw i weithredu'r rhain yn effeithiol. Fodd bynnag, mae Estyn (2022, t.13) yn dadlau bod nifer o arweinwyr ysgol wedi ystyr bod cefnogaeth a hyfforddiant am asesiadau yn anodd dod ar draws, ac fel canlyniad o hyn, mae nifer o athrawon yn asesu'n ffurfiannol heb ddealltwriaeth ddigonol.

Amlygwyd Donaldson (2015, t.73) Estyn (2022, t.9) a'r OECD (2014, t.28), meysydd gwelliant mewn asesiadau, gan gadarnhau yn eu hadroddiadau bod angen i asesiadau cefnogi dysgu i bawb, a bod angen i'r asesiadau cael eu deall a'u gwreiddio'n effeithiol er mwyn i'r plant cynnydd fel y bwriadwyd.

Hefyd, adroddwyd yn y cyfrif stoc annibynnol (*Llywodraeth Cymru*, 2014, t.28-30) y pwysigrwydd o ddilyn cyfnodau unigol o ddatblygiad bob plentyn yn lle eu hoedran cronolegol i sicrhau bod bob anghenion y plant yn cael eu diwallu, a bod y gofal ac addysg yn addas iddynt. Mae hwn yn cydamseru gyda'r ymchwiliad o'r OECD (2014, t.26), trwy adnabyddiad o'r ffaith bod angen i ysgolion yng Nghymru wella'i darpariaeth ar gyfer

anghenion dysgu unigol ac ychwanegol plant, trwy'r defnyddiad digonol o asesiadau ffurfiannol.

Ymhellach, mae'n hollbwysig i ymarferwyr neu athrawon nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol bosib a gallai bod yn amlwg yn ystod asesu, i'r awdurdod lleol neu weithwyr iechyd proffesiynol o fewn 35 diwrnod i ofyn am gynllun datblygu unigol neu ddarpariaeth dysgu ychwanegol (Snap Cymru, dim dyddiad). Dilyn hyn, cyfrifoldeb y cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yw cynghori athrawon y plentyn i wahaniaethu a chymhwyso gwahanol ddulliau o addysgu sy'n addas i'r anghenion unigol y plentyn (*Llywodraeth Cymru*, 2021a).

Gan ystyried y pwysigrwydd o degwch yn ystod asesu plant, mae angen i blant teimlo'r canfyddiad o degwch oherwydd y dylanwad ar eu hemosiynau, lefelau meddwl ac ymgysylltu â'r proses asesu a'r dysgu dilynol a cymdeithasol-emosiynol (Rasooli *et al.*, 2023).

Mae'r wybodaeth hwn gallu cael eu nodi fel rhwystr i asesiadau teg i blant, oherwydd yr absenoldeb o arweiniad ar y diffiniad o degwch, gyda nifer o athrawon yn ystyried asesiadau fel amherthnasol (Rasooli *et al.*, 2023a).

Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn, gellid un ystyried y defnyddiad o ddysgu straeon fel ffurf o asesu deg, sy'n addas i bob plentyn gan gynnwys hunaniaethau diwylliannol a dysgu, a gydag ystyriaeth i ddatblygiad cyffredinol y plentyn, arddulliau a nodweddion dysgu unigol, gyda ffocws ar ansawdd eu dysgu (Wang a Hou, 2021).

Fodd bynnag, mae'n bosib bod angen asesiadau ychwanegol i nodi anawsterau penodol bydd yn gallu nodi'r angen am ymyriadau ymhellach, oherwydd y diffyg dilysrwydd posibl gan ffoci ar arsylwadau un athrawes yn lle'r mewnbwn ystod o weithredwyr i'r straeon dysgu (The Education Hub, 2020).

Yn debyg, adrodd Zhang (2017) cyfyngiadau i defnyddio'r dull hyn o asesu, gan awgrymu bod straeon dysgu yn diffyg synthesis o ddata cyfansawdd, arwynebol ac yn cymryd ormod o amser i cyflawni, felly maent yn credu bod angen i straeon dysgu cael ei defnyddio ynghyd a dullau arall o asesu i sicrhau tystiolaeth sylweddol ar gyfer asesu.

Defnyddwyr Seland Newydd straeon dysgu fel dull o asesu, oherwydd maent yn argyhoeddedig bod y dull hwn yn adlewyrchu'r ethos a seiliau athronyddol o'u cwricwlwm Tē Whariki, i feithrin hunaniaethau, ieithoedd a diwylliannau'r plant, ac fel canlyniad o hyn, yn datblygu cyfraniad at hunaniaethau dysgu unigol (Sands a McChesney, 2023). Cytuna

Arndt a Tesar (2015) gyda'r farn hon, gan gynnal bod y defnyddiad o'r dull asesu hyn yn cynnwys safbwyntiau unigol plant, cynhwysiad o gefndiroedd diwylliannol a hanesyddol a rhyng-gysylltiad â gwybodau'r plant mewn ffordd gyfannol.

Noda Cengiz a Altındağ (2022) bod straeon dysgu yn ddull effeithiol o asesu, oherwydd mae'r arsylwadau a thystiolaeth yn cael eu cymryd pryd mae'r plant yn cymryd rhan mewn ymgysylltiad dwfn â ffocws mewn chwarae, a bod angen i athrawon dal yr eiliadau dysgu hyn yn ddiwyd, er mwyn i'r plentyn ehangu ar y prosesau dysgu.

Mae'r datganiad hon yn cysylltu â'r argymhelliad 4.9 o'r Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (*Llywodraeth Cymru*, 2014, t. 24), lle mae'n arwain tuag at asesiadau cynnwys sgiliau ar draws y Cyfnod Sylfaen, gan ddatblygu addysgeg ac amgylchedd seiliedig ar chwarae ar ddiddordebau unigol y plant yn eu gofal.

Wrth ystyried y dystiolaeth, mae'r pwysigrwydd o asesiadau yn amlwg i olrhain proses ddysgu'r plentyn unigol (*Llywodraeth Cymru*, 2022a). Fodd bynnag, rhybuddia Frans *et al.* (2021) gan fod newid datblygiadol cyflym a chyfraddau amrywiol o ysgyrion aeddfedu yn y blynyddoedd cynnar, mae hwn yn gallu meddwl ansefydlogrwydd mewn adroddiadau asesu. Serch hynny, eglura Estyn (2022, t.21), bod angen ymagwedd ysgol gyfan i gyfrannu at asesiadau plant er mwyn cefnogi anghenion unigol, a gydag ystod eang o ddulliau asesu i gefnogi unigoliaeth plant.

Cydnabod Donaldson (2015, t.75-80) y canfyddiadau Estyn, gan nodi bod angen i ysgolion defnyddio dulliau asesu a gwybodaeth mewn ffurfiau gwahanol, a bod angen ystyried bod anghenion gwahanol gyda phawb. At hyn, dyweda Donaldson bod datblygiad proffesiynol parhaus ac effeithiol yn allweddol i ddilysrwydd uchel mewn ystod o ddulliau asesu ar gyfer y plentyn unigryw.

3.

Ydy dysgu deallusrwydd emosiynol yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar?

Mae nifer o bobl wedi glywed am ddeallusrwydd emosiynol, ond beth ydy'r term hyn yn meddwl?

Diffinnir Salovey a Mayer (1990, dyfynnwyd yn Chen a Guo, 2020) a Checa-Domene (2022) deallusrwydd emosiynol fel yr abled i fynegi a chanfod emosiynau yn gywir, cynhyrchu teimladau a ysgogir gan feddwl, deallusrwydd o wybodaeth emosiynol, a'r rheoleiddiad o emosiynau. Cytuna Mayer *et al.* (2024) gyda hyn, gan fynegi bod y diffiniad yw'r abled i resymu am emosiynau ar ddefnyddiad o emosiynau i wella meddwl.

Ac yn ychwanegol, creda Audrin ac Audrin (2023), bod deallusrwydd emosiynol yn chwarae rôl hanfodol yn ein bywydau, ac yn cael eu hystyried i gael cryn dipyn o ddeilliannau buddiol.

Ond pam mae hi'n bwysig i ddechrau dysgu'r sgiliau hyn i blant yn y blynyddoedd cynnar?

Mae astudiaethau diweddar wedi cynnig bod dysgu gallu bod yn fwy effeithiol hyd at 6 oed, a gan ystyried bod datblygiad yr ymennydd yn ganlyniad o'r cydberthynas rhwng profiadau a bioleg, mae'r profiadau emosiynol a cymdeithasol yn chwarae rôl hollbwysig yn seilwaith yr ymennydd (Housman, 2017).

Cydsyniodd Hoy (2016, t.458-459) a Browning *et al.* (2022) gyda'r farn hyn, gan nodi bod dysgu'r sgiliau emosiynol a hunanreoleiddiol yn gritigol yn ystod y blynyddoedd cynnar, oherwydd wrth ddysgu'r sgiliau hyn, maent yn gallu sefydlu gwytnwch, datblygu perthynasai a'u cyfoedion a dysgu sgiliau academiaidd.

Yn ôl Kaimal, (2021), mae deallusrwydd emosiynol yn gyfadran seicolegol sy'n cael canlyniadau arwyddocaol mewn bywyd, ac mae astudiaethau wedi dangos lleihad o ymddygiadau problematig a hunanddinistriol, yn dangos mwy o empathi canfyddiad hunan uwch ac yn fwy addasol yn foesegol. Mae Checa-Domene (2022) yn cydnabod be ddyweda Kaimal, gan ddatgan bod deallusrwydd emosiynol yn gyfathrebiad rhwng gwybyddiaeth ac emosiwn sy allu alluogi unigolion i wella'u prosesau ymddygiadol a gwybyddol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried bod anfanteision i fod yn emosiynol ddeallus.

Wrth gaffael y nodwedd hyn, rhybuddia Harvard Business Review a Goleman (2021) mae gallu bod yn broblematic yn y dyfodol oherwydd yr abled o gyfloga'r emosiynau personol yn ogystal â'r emosiynau o'r bobl o'n cwmpas. Creda Davis a Nichols (2016), goblygiad o'r effaith hyn gallu achosi iechyd seicolegol gwaeth, iselder, straen ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn ychwanegol, awgryma Sharma a Tiwari (2024) bod deallusrwydd emosiynol gallu arwain at flinder emosiynol fel canlyniad o reoli teimladau ac emosiynau eraill.

Serch hynny, yn ôl Silton (2020), mae'r manteision o'r abled i ddarllen a theimlo emosiynau eraill yn fuddiol iawn, nid yn unig yn y blynyddoedd cynnar, ond gydol eu hoes.

Dyweda Silton, bod emosiynau gallu cael eu defnyddio mewn ffordd ymarferol, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol mewn eraill, a gellir ei defnyddio i ddatrys gwrthdaro.

At hyn, datgan Davis, Nowland a Qualter (2019) a Dariotis *et al.* (2023) bod dysgu'r rheoliad o emosiynau yn y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig i ddatblygu dealltwriaeth o iechyd meddwl yn oedolaeth.

O ran deallusrwydd academiaidd a gallu gwybyddol, mae astudiaethau yn dangos cydgysylltiad rhwng y sgiliau hyn, a deallusrwydd emosiynol (Li a Shi, 2021). Adrodda Herut, Muleta a Lebeta (2024), y cysylltiad hwn, ac yn ychwanegol, noda oherwydd mae unigolion gyda deallusrwydd academiaidd gyda'r abled i reoli straen yn well, mae hwn gallu effeithio'r abled i negodi heriau academiaidd a chyfathrebiadau cymdeithasol.

Fodd bynnag, creda Quílez-Robres *et al.* (2023) ac Alabbasi *et al.* (2023) bod cysylltiad gwan rhwng y ddwy ardal, ac maent yn sicr er bod deallusrwydd emosiynol yn reoli sgiliau academig, dydy hi ddim yn rhagfynegydd dibynadwy o'r sgil hon.

Felly, sut gall ymarferwyr dysgu deallusrwydd emosiynol i blant?

I ddysgu'r sgiliau hyn yn ystod y blynyddoedd cynnar, awgryma Tominey *et al.* (2017) bod y defnyddiad o fesuryddion hwyliau yn offeryn defnyddiol ar gyfer trafod a labelu emosiynau, ac fel canlyniad o hyn, wrth i'r plant adnabod eu teimladau a nodi'r achosion, trafod strategaethau ar y cyd i newid neu gynnal yr emosiwn, mae hwn gallu helpu plant ac ymarferwyr i greu amgylchedd sy'n gefnogol o ddysgu.

I ychwanegu at hyn, dyweda Eggleton (2020), bod y defnyddiad o'r dull hyn yn dysgu plant bod nad yw emosiynau drwg yn bodoli, ond bod cydnabyddiaeth o'u teimladau yn cefnogi'r dysgid o sut mae emosiynau yn dylanwadu ar ymddygiad.

Fodd bynnag, awgryma Cummings a Rennels (2014) bod y dull hwn ganddo ei gyfyngiadau, gan fod adnabyddiad o emosiynau ddim yn fanwl gywir tan o leiaf rhwng yr oedran 7 i 14 mlwydd oed, a bod ymchwil ar sut mae effaith yn dylanwadu ar yr abled o blant i fod yn ymwybodol ac adnabod emosiynau o eraill yn gyfyngedig iawn.

Tra gallai hyn fod yn wir, creda Burbaitė, Tilindienė a Šukys (2023) bod deallusrwydd emosiynol gallu cael eu haddysgir gan yr oedolion o'u gwmpas, felly maent yn awgrymu i addysgwyr cymryd rhan mewn hyfforddiant yn yr ardal hon, oherwydd os mae'r ymarferwyr gallu deall, adnabod ac ymateb yn briodol i emosiynau plant, mae hwn gallu effeithio'r diogelwch emosiynol plant, ac fel canlyniad mae hwn gallu cefnogi'r ffurfiad o sgiliau deallusrwydd emosiynol.

I gysylltu â hyn, awgryma Walker (2015) bod plant cael mynediad i 'hyfforddwr emosiwn', person sy'n gwrando ar y plentyn mewn ffordd empathig, er mwyn cadarnhau teimladau'r plentyn a cheisio labelu'r emosiwn gan ddefnyddio geirfa briodol.

Gan wneud hyn, mae Walker yn argyhoeddedig bydd y plentyn yn dysgu bod emosiynau negyddol yn rhan o fywyd, ac yn dysgu'r plentyn sut i ddarganfod strategaethau i ddatrys y problem.

Yn ychwanegol, mae Ellis *et al.* (2014) yn cynnig bod rhieni a gofalwyr hefyd yn cymryd y rôl o hyfforddwr emosiwn, er mwyn hyrwyddo lleihad o broblemau ymddygiad, gweld lianau mewn perthnasoedd â rhieni a'u chyfoedion a chyflawniad academiaidd cryfach.

At hyn, dyweda Wilson *et al.* (2013) a Ting a Weiss (2017) wrth i rieni o blant ar y sbectrwm Awtistig cymryd y rôl hon, maent yn gallu cefnogi galluoedd hunan lleddfol, ffisioleg reoleiddiol a gwell rheoleiddio emosiwn i blant efo problemau cymdeithasol ac ymddygiad.

Mae'r dysgid o ddeallusrwydd emosiynol hefyd gallu cael eu gweithredu rhwng gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn y blynyddoedd cynnar, fel cyfathrebiad gydag ymarferwyr a chyfoedion, straeon, celf a cherddoriaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd i adnabod teimladau ac emosiynau, trwy ddefnyddiad o'r famiaith gyda gwybodaeth ieithyddol, emosiynau a theimladau dwfn (Dughi a Bold, 2022).

Cytuna Idogho a Osuya (2020) gyda hyn, a chydsyniodd bod y defnyddiad o'r dulliau hyn yn fuddiol, oherwydd y defnyddiad o ymglymiad emosiynol, ac yn gyfrannol achos maent yn datblygu hunan hyder trwy'r amgyffred o uno'r meddwl a chorff.

Wrth ystyried y dystiolaeth uchod, mae dadl gref tuag at y manteision o ddysgu'r sgil hyn i blant trwy ddynesiad pedagogaid a gweithgareddau trwy'r cwricwlwm mewn ffordd aml-ddimensiwn.

Er bod ychydig o rwystrau i hyn, mae'n amlwg bod y buddion yn gorbwyso'r rhwystrau, oherwydd manteision a all bara drwy gydol eu hoes.

Rhestr Gyfeirio

Alabbasi, A.M.A., Alabbasi, F.A., AlSaleh, A., Alansari, A.M., Sequeira, R.P. (2023) 'Emotional intelligence weakly predicts academic success in medical programs: a multilevel meta-analysis and systematic review', *BMC medical education*, 23(1), tt. 425–425. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1186/s12909-023-04417-8>

Aras, S. (2023) 'Building up formative assessment practices through action research: A study in early childhood teacher education', *Journal of early childhood teacher education*, tt. 1–14. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/10901027.2023.2217413>

Arndt, S. and Tesar, M. (2015) 'Early childhood assessment in Aotearoa New Zealand: Critical perspectives and fresh openings', *Journal of pedagogy (Warsaw)*, 6(2), tt. 71–86. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1515/jped-2015-0014>

Arweiniaeth Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (2022) *Leading Professional Learning*. Ar gael yn: [NAEL Insight Series report 3_ENGV2.indd](#) (Cyrchwyd 24 Rhagfyr 2023)

Audrin, C. and Audrin, B. (2023) 'More than just emotional intelligence online: introducing “digital emotional intelligence”', *Frontiers in psychology*, 14. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2023.1154355>

Barblett, L., Knaus, M. and Barratt-Pugh, C. (2016) 'The pushes and pulls of pedagogy in the early years : Competing knowledges and the erosion of play-based learning', *Australasian journal of early childhood*, 41(4), tt. 36–43. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/183693911604100405>

Braund, H. and Timmons, K. (2021) 'Operationalization of self-regulation in the early years: comparing policy with theoretical underpinnings', *International journal of child care and education policy (Seoul)*, 15(1), tt. 1–21. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1186/s40723-021-00085-7>

Browning, M.H.E.M., Li, D., White, M.P., Bratman, G.N., Becker, D., Benfield, J.A. (2022) 'Association between residential greenness during childhood and trait emotional intelligence during young adulthood: A retrospective life course analysis in the United States', *Health & place*, 74, tt. 102755–102755. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.healthplace.2022.102755>

Burbaitė, E., Tilindienė, I. and Šukys, S. (2023) 'Peculiarities of Emotional Intelligence of Pedagogues and Parents of Children in Private and Public Sector Pre-School Education Institutions', *Baltic journal of sport & health sciences*, 2(129), tt. 11–18. Ar gael yn: <https://doi.org/10.33607/bjshs.v2i129.1379>

Cengiz, G.Ş.T. and Altındağ, A. (2022) 'A Different Approach to Evaluation in Early Childhood Curriculum: Learning Stories', *Sustainability (Basel, Switzerland)*, 14(18), tt. 11218-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/su141811218>

CGA EWC (2023) *What is the Professional Learning Passport?* Ar gael yn: <https://youtu.be/pI9t6Mb5Dhs?si=swNku8IUnzr9yw0F> (Cyrchwyd 24 Rhagfyr 2023)

Checa-Domene, L., Luque de la Rosa, A., Gavín-Chocano, O., Torrado, J. (2022) 'Students at Risk: Self-Esteem, Optimism and Emotional Intelligence in Post-Pandemic Times?', *International journal of environmental research and public health*, 19(19), tt. 12499-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/ijerph191912499>

Chen, J. and Guo, W. (2020) 'Emotional intelligence can make a difference: The impact of principals' emotional intelligence on teaching strategy mediated by instructional leadership', *Educational management, administration & leadership*, 48(1), tt. 82–105. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/1741143218781066>

Cummings, A.J. a Rennels, J.L. (2014) 'How Mood and Task Complexity Affect Children's Recognition of Others' Emotions', *Social development (Oxford, England)*, 23(1), tt. 80–99. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1111/sode.12038>

Cyngor y Gweithlu Addysg (Dim dyddiad) *Professional Learning Passport*. Ar gael yn: <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/professional-development/professional-learning-passport> (Cyrchwyd 24 Rhagfyr 2023)

Dariotis, J.K., Mabisi, K., Jackson-Gordon, R., Rose, E.J., Fishbein, D.H., Mendelson, T. (2023) 'Perceived Benefits of Mindfulness and Health Education Programs for Minoritized Adolescents: A Qualitative Analysis', *Mindfulness*, 14(6), tt. 1346–1361. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1007/s12671-023-02147-y>

Davis, S.K., Nichols, R. (2016) 'Does emotional intelligence have a “dark” side? A review of the literature', *Frontiers in psychology*, 7. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.3389/fpsyg.2016.01316>

Davis, S.K., Nowland, R., Qualter, P. (2019) 'The Role of Emotional Intelligence in the Maintenance of Depression Symptoms and Loneliness Among Children', *Frontiers in psychology*, 10. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2019.01672>

Donaldson, G. (2015) *Successful Futures- An Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*. Ar gael yn:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf>

(Cyrchwyd 11 Rhagfyr 2023)

Dughi, D. and Bold, I. (2022) 'LANGUAGE TEACHING AND EMOTIONAL INTELLIGENCE DEVELOPING AT PRESCHOOL AGE, THROUGH FAIRY TALES AND STORIES', *Educația-plus*, 31(2), tt. 83–96. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.24250/JPE/2/2022/DD/IB>

eAutin, F., eBatruch, A., eButera, F. (2015) 'Social justice in education: How the function of selection in educational institutions predicts support for (non)egalitarian assessment practices', *Frontiers in psychology*, 6. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2015.00707>

Eggleton, M. (2020) 'Pupil mental health: four ways to support wellbeing', *The Times Educational Supplement* [Preprint]

Ellis, B.H., Alisic, E., Reiss, A., Dishion, T., Fisher, P.A. (2014) 'Emotion Regulation Among Preschoolers on a Continuum of Risk: The Role of Maternal Emotion Coaching', *Journal of child and family studies*, 23(6), tt. 965–974. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1007/s10826-013-9752-z>

Estyn (2022) *Effective approaches to assessment that improve teaching and learning*. Ar gael yn: [https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-](https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-10/Effective%20approaches%20to%20assessment%20that%20improve%20teaching%20and%20learning.pdf)

[10/Effective%20approaches%20to%20assessment%20that%20improve%20teaching%20and%20learning.pdf](https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-10/Effective%20approaches%20to%20assessment%20that%20improve%20teaching%20and%20learning.pdf) (Cyrchwyd 7 Ionawr 2024)

Frans, N., Post, W., Oenema-Mostert, I., Minnaert, A. (2021) 'Defining and evaluating stability in early years assessment', *International journal of research & method in education*, 44(2), tt. 151–163. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/1743727X.2020.1736024>

Gutierrez, S.B. and Kim, H.-B. (2017) 'Becoming teacher-researchers: teachers' reflections on collaborative professional development', *Educational research (Windsor)*, 59(4), tt. 444–459. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/00131881.2017.1347051>

Harvard Business Review and Goleman, D. (2021) 'EQ's Daniel Goleman says it's got nothing to do with being 'nice'', *The Australian (Online)*

Herut, A.H., Muleta, H.D. and Lebeta, M.F. (2024) 'Emotional intelligence as a predictor for academic achievement of children: Evidence from primary schools of southern Ethiopia', *Social sciences & humanities open*, 9, tt. 100779-. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1016/j.ssaho.2023.100779>

Housman, D.K. (2017) 'The importance of emotional competence and self-regulation from birth: a case for the evidence-based emotional cognitive social early learning approach', *International journal of child care and education policy (Seoul)*, 11(1), tt. 1–19. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1186/s40723-017-0038-6>

Howard, J. and McInnes, K. (2013) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being', *Child : care, health & development*, 39(5), tt. 737–742. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1111/j.1365-2214.2012.01405.x>

Hoy, A.W. (2016) *Educational psychology*. Thirteenth, global edition. Boston: Pearson

Idogho, J.A. and Osuya, O. (2020) 'TEACHING EMOTIONAL INTELLIGENCE THROUGH DRAMA: A REPORT OF THE UNIBEN CONSULTANCY PRIMARY II PUPILS PROJECT', *Gender & behaviour*, 18(2), tt. 15707–15718. Ar gael yn: <https://doi.org/10.10520/ejc-genbeh-v18-n2-a49>

Institute of Education Sciences (2020) *Using Formative Assessment to Reflect on Children's Knowledge & Skills (REL Southwest)*. Ar gael yn: <https://youtu.be/5Q3DFs4hrpU?si=6D4UymUNtppCESfP> (Cyrchwyd 4 Ionawr 2024)

Isaacs, B. (2018) *Understanding the Montessori approach : early years education in practice*. Second edition. New York: Routledge. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4324/9781315536880>

Kaimal, G. (2021) 'Intelligence and Emotional Intelligence among Inmates of Orphanages: A Cross-sectional Study', *Journal of clinical and diagnostic research*, 15(2), tt. VC06–VC09. Ar gael yn: <https://doi.org/10.7860/JCDR/2021/48316.14560>

Kinthead-Clark, Z. (2019) 'Exploring children's play in early years learning environments; what are the factors that shape children's play in the classroom?', *Journal of early childhood research : ECR*, 17(3), tt. 177–189. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/1476718X19849251>

Legislation.gov.uk (2021) *Curriculum and Assessment (Wales) Act*. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/4/section/56/enacted> (Cyrchwyd 4 Ionawr 2024)

Li, D. and Shi, J. (2021) 'Fluid intelligence, trait emotional intelligence and academic performance in children with different intellectual levels', *High ability studies*, 32(1), tt. 51–69. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/13598139.2019.1694493>

Llywodraeth Cymru (2014) *An independent stocktake of the Foundation Phase in Wales*. Ar gael yn: <https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/20340/1/140519-independent-stocktake-of-the-foundation-phase-in-wales-en.pdf> (Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2014a) *Datganiad Ysgrifenedig- Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-fframwaith-datblygu-ac-asesur-blynyddoedd-cynnar>

Llywodraeth Cymru (2015) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen- Adroddiad Terfynol*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150514-foundation-phase-final-cy.pdf> (Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2015a) *Early Years Outcomes Framework*. Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/24362/2/150916-early-years-outcomes-framework-en_Redacted.pdf (Cyrchwyd 6 Ionawr 2024)

Llywodraeth Cymru (2020) *Safonau proffesiynol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/adnabod-anghenion-dysgu-proffesiynol/safonau-proffesiynol/> (Cyrchwyd 24 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2021) *Education in Wales: Our national mission*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf> (Cyrchwyd 24 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2021a) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/220622-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf> (Cyrchwyd 7 Ionawr 2024)

Llywodraeth Cymru (2022) *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/poster-crynodeb-uncrc.pdf> (Cyrchwyd 14 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2022a) *Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/assessment-arrangements/supporting-learner-progression-assessment-guidance> (Cyrchwyd 4 Ionawr 2024)

Llywodraeth Cymru (2023) *Professional learning: foundation learning support for practitioners in schools and settings*. Ar gael yn:

<https://hwb.gov.wales/repository/resource/8c8386c7-d054-4186-ba4e-3ea2be2608c2/en/overview> (Cyrchwyd 6 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023a) *Addysgeg*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/addysgeg> (Cyrchwyd 12 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2023b) *Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arwain a chynorthwyo gwaith addysgu: adroddiad terfynol*. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-05/gwerthusiad-or-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-arweinyddiaeth-a-chynorthwyo-addysgu-adroddiad-terfynol.pdf>

Llywodraeth Cymru (2023c) *Datganiad Ysgrifynedig: PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-pisa-2022-adroddiad-cenedlaethol-cymru> (Cyrchwyd 24 Rhagfyr 2023)

Mayer, J.D., Caruso, D.R., Sitarenios, G., Escobar, M.R. (2024) 'How many emotional intelligence abilities are there? An examination of four measures of emotional intelligence', *Personality and individual differences*, 219, tt. 112468-. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1016/j.paid.2023.112468>

McGuinness, C., Sproule, L., Bojke, C., Trew, K., Walsh, G. (2014) 'Impact of a play-based curriculum in the first two years of primary school: literacy and numeracy outcomes over seven years', *British educational research journal*, 40(5), tt. 772–795. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1002/berj.3117>

Ministry of Education, New Zealand. (2017) *Te Whāriki Early Childhood Curriculum*. Ar gael yn: <https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/ELS-Te-Whariki-Early-Childhood-Curriculum-ENG-Web.pdf> (Cyrchwyd 24 Rhagfyr 2023)

Nolan, A. and Guo, K. (2022) 'Transforming practice through a professional learning program: barriers and enablers', *Early years (London, England)*, 42(2), tt. 232–246. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/09575146.2019.1651254>

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective*. Ar gael yn: <https://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf> (Cyrchwyd 7 Ionawr 2024)

OECD Education Working Papers No.239 (2020) *Curriculum reform: A literature review to support effective implementation*. Ar gael yn: <https://www.oecd-ilibrary.org/docserver/efe8a48c-en.pdf?expires=1704394488&id=id&accname=guest&checksum=0AE879D924954440FC12B5D9B4E2DE66> (Cyrchwyd 4 Ionawr 2024)

Pompert, B., van der Meer-Wijnands, S.L. and De Waard, H. (2022) 'Professionalisation in a play-based curriculum', *International journal of early years education*, 30(3), tt. 610–625. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/09669760.2022.2079076>

Professional Association for Childcare and Early Years (2024) *An Inclusive Practice*. Ar gael yn: <https://www.pacey.org.uk/parents/the-best-care-for-your-child/an-inclusive-practice/> (Cyrchwyd 3 Ionawr 2024)

Quílez-Robres, A., Usán, P., Lozano-Blasco, R., Salavera, C. (2023) 'Emotional intelligence and academic performance: A systematic review and meta-analysis', *Thinking skills and creativity*, 49, tt. 101355-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.tsc.2023.101355>

Rasooli, A., DeLuca, C., Cheng, L., Mousavi, A. (2023) 'Classroom assessment fairness inventory: a new instrument to support perceived fairness in classroom assessment', *Assessment in education : principles, policy & practice*, tt. 1–24. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/0969594X.2023.2255936>

Rasooli, A., Rasegh, A., Zandi, H., Firoozi, T. (2023a) 'Teachers' Conceptions of Fairness in Classroom Assessment: An Empirical Study', *Journal of teacher education*, 74(3), tt. 260–273. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/00224871221130742>

Salmon, J. (2019) 'Schools adopt play-based teaching to improve learning among children', *Daily Monitor*.

Salovey, P. and Mayer, J.D. (1990) 'Emotional Intelligence', *Imagination, cognition and personality*, 9(3), tt. 185–211. Ar gael yn: <https://doi.org/10.2190/DUGG-P24E-52WK-6CDG>

Sands, L. and McChesney, K. (2023) 'How Learning Stories Influence Children's Learning Identities', *New Zealand journal of educational studies*, 58(1), tt. 183–199. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s40841-022-00273-0>

Senedd Cymru (2019) *Early Childhood Education and Care in Wales: An introduction*. Ar gael yn: <https://senedd.wales/media/ysegqg0q/early-childhood-education-web-english.pdf> (Cyrchwyd 28 Rhagfyr 2023)

Sharma, S., Tiwari, V. (2024) 'Does emotional intelligence contribute to career success? Evidence from a systematic literature review', *Global business and organizational excellence* [Preprint]. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/joe.22246>

Silton, N.R. (2020) 'Key Ingredients for Fostering Emotional Intelligence in Children', in *Exploring Best Child Development Practices in Contemporary Society*. United States: IGI Global, tt. 88–108. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4018/978-1-7998-2940-9.ch005>

Snap Cymru (Dim dyddiad) *Individual Development Plans*. Ar gael yn: <https://www.snapcymru.org/get-support/idps/> (Cyrchwyd 7 Ionawr 2024)

Taylor, C., Rhys, M. and Waldron, S. (2016) 'Implementing curriculum reform in Wales: the case of the Foundation Phase', *Oxford review of education*, 42(3), tt. 299–315. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/03054985.2016.1184872>

The Education Hub (2020) *How to use learning stories in early childhood assessment*. Ar gael yn: <https://theeducationhub.org.nz/how-to-use-learning-stories-in-ece-assessment-2/> (Cyrchwyd 9 Ionawr 2024)

The New Times (2017) 'Schools urged to embrace play-based learning'.

Ting, V. and Weiss, J.A. (2017) 'Emotion Regulation and Parent Co-Regulation in Children with Autism Spectrum Disorder', *Journal of autism and developmental disorders*, 47(3), tt. 680–689. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s10803-016-3009-9>

Tominey, S.L., O'Bryon, E.C., Elisabeth, C., Rivers, S.E., Shapses, S. (2017) 'Teaching Emotional Intelligence in Early Childhood', *YC young children*, 72(1), tt. 6–14

UNICEF (2018) *Learning through play*. Ar gael yn: <https://www.unicef.org/sites/default/files/2018-12/UNICEF-Lego-Foundation-Learning-through-Play.pdf> (Cyrchwyd 14 Rhagfyr 2023)

Valentine, N., Durning, S.J., Shanahan, E.M., van der Vleuten, C., Schuwirth, L. (2022) 'The pursuit of fairness in assessment: Looking beyond the objective', *Medical teacher*, 44(4), tt. 353–359. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/0142159X.2022.2031943>

van Oers, B. (2015) 'Implementing a play-based curriculum: Fostering teacher agency in primary school', *Learning, culture and social interaction*, 4, tt. 19–27. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.lcsi.2014.07.003>

Wainwright, N., Goodway, J., Whitehead, M., Williams, A., Kirk, D. (2020) 'Playful pedagogy for deeper learning: exploring the implementation of the play-based foundation phase in Wales', *Early child development and care*, 190(1), tt. 43–53. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/03004430.2019.1653551>

Walker, C. (2015) 'Strategies for School Counsellors and Teachers to Increase Emotional Intelligence in Students', *Alberta counsellor*, 34(1), tt. 20-.

Wang, S. and Hou, Y. (2021) 'Learning Stories as an Assessment: A Case Study Exploring Its Local Application in China', *Early childhood education journal*, 49(4), tt. 693–710. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s10643-020-01092-y>

Wilson, B.J., Berg, J.L., Zurawski, M.E., King, K.A. (2013) 'Autism and externalizing behaviors: Buffering effects of parental emotion coaching', *Research in autism spectrum disorders*, 7(6), tt. 767–776. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.rasd.2013.02.005>

Zhang, Q. (2017) 'Do learning stories tell the whole story of children's learning? A phenomenographic enquiry', *Early years (London, England)*, 37(3), tt. 255–267. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/09575146.2016.1151403>